

# **Etholiadau Cyngor Abertawe ac Etholiadau Cyngorau Cymuned a Thref**

**Dydd Iau 5 Mai 2022**

**City and County of Swansea  
Dinas a Sir Abertawe**



# AMSERLEN

<b>Hysbysiad o Etholiad</b> Mae'r hysbysiad o etholiad yn dechrau'r broses etholiadol yn ffurfiol ac yn agor enwebiadau	<b>18 Mawrth 2022</b>
<b>Cau Enwebiad/Tynnu Enwebiad yn ôl</b> Ni all enwebiadau ar gyfer etholiad gael eu cyflwyno, eu tynnu'n ôl neu eu diwygio ar ôl	<b>4pm, 5 Ebrill 2022</b>
<b>Dyddiad cau i benodi Asiantiaid Etholiadol</b>	<b>4pm, 5 Ebrill 2022</b>
<b>Datganiad o Bobl a Enwebwyd</b> <a href="http://www.abertawe.gov.uk/etholiadau">www.abertawe.gov.uk/etholiadau</a>  Yn dilyn cau'r enwebiadau am 4pm ar 5 Ebrill 2022, os cyflwynir mwy o bapurau enwebu dilys nag sydd o'r seddi sydd ar gael yna cynhelir etholiad ar 5 Mai 2022. Os oes yr un nifer neu lai o seddi i bapurau enwebu dilys a gyflwynir, yna bydd yr ymgeiswyr hynny sydd wedi cyflwyno papurau enwebu yn cael eu hethol yn awtomatig i'r seddi hynny.	<b>4pm, 6 Ebrill 2022</b>



# AMSERLEN

<b>Dyddiad cau i etholwyr gofrestru i bleidleisio</b> Gall preswylwyr gofrestru ar-lein yn <a href="http://www.gov.uk/register-to-vote">www.gov.uk/register-to-vote</a>	<b>14 Ebrill 2022</b>
<b>Dyddiad cau i etholwyr wneud cais, canslo neu newid pleidlais drwy'r post</b>	<b>5pm 19 Ebrill 2022</b>
<b>Dyddiad cau i etholwyr ofyn am bleidlais drwy ddirprwy</b>	<b>5pm 26 Ebrill 2022</b>
<b>Dyddiad cau i benodi Asiantiaid Pleidleisio a Chyfrif</b>	<b>27 Ebrill 2022</b>
<b>Diwrnod pleidleisio</b> Mae gorsafoedd pleidleisio ar agor o 7am i 10pm	<b>5Mai 2022</b>
<b>Cyfrif y pleidleisiau</b> Bydd y broses gyfrif mewn wardiau'n cael ei darwahanu o'r amser dechrau	<b>6 Mai 2022</b>
<b>Dyddiad cau i gyflwyno Costau Etholiad - Cyngor Sir</b> Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd sy'n sefyll ar gyfer etholiad gyflwyno cyfres o ffurflenni costau etholiad yn cadarnhau nad oedd wedi gwario mwy na'r terfyn gwario fel rhan o'i ymgyrch hyd yn oed os nodir DIM.	<b>10 Mehefin 2022</b>
<b>Dyddiad cau i etholwyr wneud cais, canslo neu newid pleidlais drwy'r post</b>	<b>5pm 19 Ebrill 2022</b>



# Beth sy'n newydd?

- Mae Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 wedi gwneud newidiadau i'r broses enwebu.
- Mae'r newidiadau allweddol i'r rheolau blaenorol i'w gweld isod:
  - **Disgrifiadau**
    - Ar hyn o bryd, dim ond disgrifiadau o 'Annibynol' neu ddisgrifiad cofrestredig o blaid wleidyddol a ganiateir gan enwebiadau ar lefel sirol. Mae rheolau newydd bellach yn dod â disgrifiadau'r Cyngor Cymuned yn unol â'r Sir, gan ddileu disgrifiad o hyd at 6 gair (h.y. ffermwr, wedi ymddeol, cynghorydd presennol etc.)
  - **Gofyniad Tyst yn Unig**
    - Mae'n dileu'r gofyniad am danysgrifwyr – dim ond un tyst sydd ei angen ar gyfer papur enwebu
  - **Ffurflen Cyfeiriad Cartref**
    - Gellir tynnu cyfeiriad cartref o'r bleidlais a'r hysbysiadau statudol.
  - **Datganiad Aelodaeth Wleidyddol**
    - Bydd angen i bob ymgeisydd ddarparu manylion aelodaeth y pleidiau gwleidyddol ar gyfer y 12 mis blaenorol oni bai ei fod yr un fath â'r blaid y maent yn sefyll drosti mewn etholiad
  - **Cyflwyniadau Enwebiadau Ar-lein**



# Enwebiad

- **Rhaid i bob Ymgeisydd gwblhau a threfnu i ddanfôn:**
  - Papur enwebu
  - Ffurflen Cyfeiriad Cartref (newydd)
- 
- **Os ydych yn cynrychioli plaid wleidyddol mae'n RHAID i chi hefyd ddychwelyd:**
  - Tystysgrif awdurdodi – sicrhewch fod hyn wedi'i hardystio'n gywir gan swyddog enwebu'r plaid neu awdurdod dirprwyedig
  - Cais am arwyddlun plaid (ar gyfer y papur pleidleisio)
- 
- Os ydych yn penodi asiant etholiadol, dylech HEFYD ddychwelwch yr Hysbysiad o
- Asiant Etholiadol, fel arall cewch eich ystyried fel eich asiant eich hun.



# Amodau cymhwyso ar gyfer sefyll mewn Etholiadau

Er mwyn gallu sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad llywodraeth leol yng Nghymru, rhaid i chi fod yn 18 oed o leiaf, yn Ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad, yn Ddinesydd unrhyw un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd neu'n Ddinesydd Tramor cymwys AC yn bodloni o leiaf un o'r pedwar amod cymhwyso canlynol:

- a. Rydych wedi'ch cofrestru, a byddwch yn parhau i gael eich cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal awdurdod lleol yr ydych yn dymuno sefyll fel ymgeisydd ynddi o ddiwrnod eich enwebiad ymlaen.
- b. Rydych wedi meddiannu unrhyw dir neu safle arall yn yr ardal awdurdod lleol fel perchennog neu denant yn ystod y 12 mis cyn diwrnod eich enwebiad a diwrnod yr etholiad.
- c. Mae eich prif weithle neu'ch unig weithle yn ystod y 12 mis cyn diwrnod eich enwebiad a diwrnod yr etholiad wedi bod yn yr ardal awdurdod lleol.
- ch. Rydych wedi byw yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod y 12 mis cyfan cyn diwrnod eich enwebiad a diwrnod yr etholiad.



# Cyflwyno Enwebiad

Drwy Apwyntiad

O 21 Mawrth 2022 tan 4pm, 5 Ebrill 2022 yn: Neuadd y Ddinas,  
Abertawe, SA1 4PE

Bydd gennym hefyd drefniadau ar waith a fydd yn caniatáu i chi gyflwyno'ch papurau enwebu'n electronig. Darperir cyfeiriad e-bost a chyfeiriad gwefan yn benodol at ddiben cyflwyno papurau enwebu'n electronig YN UNIG.



# Ymgyrchu

- • Defnyddiwch argraffnodau ar eich holl ddeunydd ymgyrchu printiedig ac unrhyw ddeunydd ymgyrchu electronig ac unrhyw beth sydd wedi'i ddylunio i'w argraffu'n lleol. Dylech sicrhau bod yr argraffnod yn glir ac yn weladwy.
- Enghraifft: Argraffwyd gan [Enw a chyfeiriad yr argraffydd] a'i Hyrwyddo gan [enw'r asiant
- a chyfeiriad], ar ran [enw a chyfeiriad yr ymgeisydd]
- • Cydymffurfiwch â chynllunio a rheolau sy'n ymwneud â byrddau hysbysebu/baneri mawr a hysbyslenni ar eiddo preifat
- • Gwnewch yn siŵr bod poster/hysbyslenni awyr agored yn cael eu tynnu'n brydlon ar ôl
- yr etholiad – dylech wneud hyn o fewn pythefnos i'r etholiadau





# Yr ymgyrch

Ni all yr Heddlu ymchwilio i honiadau o dwyll etholiadol oni bai fod tystiolaeth i ddangos bod trosedd wedi digwydd, felly dylech bob amser allu cadarnhau unrhyw hawliadau neu honiadau pan fyddwch yn eu cyfeirio at yr heddlu.

## Rhestr o Droseddau

- Llwgrwobrwyo
- Anrhegu
- Dylanwad Gormodol
- Personiad
- Datganiadau Ffug
- Cais am gofrestru/bleidlais drwy'r post neu ddirprwy ffug
- Torri cyfrinachedd y bleidlais
- Deunydd Cyhoeddusrwydd yr ymgyrch
- Casineb Hiliol



# Ffurflen Treuliau Ymgeisydd

Eich cyfrifoldeb chi yw adrodd yn llawn ac yn gywir am wariant ymgeiswyr. Dylech sicrhau eich bod yn deall y rheolau a bod yr holl wariant yn cael ei awdurdodi a'i gofnodi ac yr adroddir amdano'n briodol.

<b>Swm Penodedig</b>	<b>Ynghyd â Symiau Amrywiol</b>
£860	7c fesul etholwr llywodraeth leol yn y ward sydd wedi'i gofrestru i bleidleisio ar ddiwrnod olaf cyhoeddi hysbysiad o etholiad

Mae Adran 85(2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn nodi na all Cynghorydd eistedd na phleidleisio mewn unrhyw gyfarfod cyngor (neu bwyllgor) oni bai ei fod wedi dychwelyd y ddogfen angenrheidiol.



- Bydd papurau enwebu ar gael gan y Gwasanaethau Etholiadol ac ar-lein yn [www.abertawe.gov.uk/LE2022](http://www.abertawe.gov.uk/LE2022) Byddwn hefyd yn diweddarau'r dudalen hon gydag unrhyw fanylion perthnasol gan gynnwys y wefan a'r cyfeiriad e-bost i gyflwyno'ch papurau enwebu.
- Os oes gennych unrhyw ymholiadau, e-bostiwch [www.etholiadau@abertawe.gov.uk](mailto:www.etholiadau@abertawe.gov.uk) Neu ffoniwch 01792 636123

